

## Digwyddiadau ar Warchoddefydd

**Darllenwch yr amodau a thelerau hyn yn ofalus cyn i chi brynu os gwelwch yn dda.**

At ddibenion y Telerau ac Amodau hyn:

Bydd yr "RSPB", "ni", "ein" neu "ni" yn golygu **THE ROYAL SOCIETY FOR THE PROTECTION OF BIRDS**, elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, rhif 207076 ac yn Yr Alban, rhif SC037654, sydd â'i swyddfa gofrestredig yn The Lodge, Sandy, Swydd Bedford, SG19 2DL. At ddibenion yr Amodau a Telerau hyn, bydd yr "RSPB" hefyd yn cyfeirio at **RSPB SALES LIMITED**, cwmni sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr o dan rif 2693778, sef is-gwmni masnachu dan berchnogaeth lwyr yr RSPB a'i gyfeiriad cofrestredig yw The Lodge, Potton Road, Sandy, Swydd Bedford SG19 2DL.

"Bydd "chi" neu "eich un chi" yn golygu'r person sy'n contractio gyda'r RSPB at ddibenion y Digwyddiad.

Bydd "Digwyddiad" yn golygu unrhyw ddigwyddiad/gweithgaredd ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n cael ei gynnal gan yr RSPB, neu ei isgcontractwyr penodedig, ar unrhyw un o'i warchoddefydd natur ledled y DG.

### Cytundeb

Bydd manylion pob Digwyddiad sy'n ymddangos mewn unrhyw ddeunydd sy'n cael ei ddarparu gennym yn gywir adeg ei gyhoeddi ond gallant newid yn ôl ein disgrisiwn.

Mae angen talu'n llawn cyn y Digwyddiad. Trwy wneud taliad am fynychu Digwyddiad, rydych chi'n cytuno i gadw at y telerau ac amodau hyn ac i eithrio o unrhyw delerau eraill.

Ar ôl derbyn eich taliad, bydd yr RSPB yn cadarnhau eich pryniant drwy ddanfôn e-bost atoch â PDF sy'n cynnwys eich cadarnhad 'r archeb neu (os caiff ei brynu) tocyn rhodd (y "**Cadarnhad o'r Archeb**") i'r cyfeiriad e-bost rydych chi'n ei ddarparu ar adeg ei brynu.

Dim ond pan fyddwn yn anfon y Cadarnhad o'r Archeb atoch y bydd y cytundeb rhyngoch chi a'r RSPB ("Cytundeb") yn cael ei ffurfio ar gyfer y Digwyddiad. Bydd y telerau ac amodau hyn yn rheoli'r Cytundeb.

Rydym yn cadw'r hawl i newid prisiau ein Digwyddiadau ar unrhyw adeg, ar yr amod na fyddwn (ac eithrio achos o wall amlwg) yn newid ein prisiau ar ôl ymrwymo i'r Cytundeb.

Sylwch mai dim ond yn unol â'r telerau ac amodau hyn y bydd ad-daliadau ar eich pryniant ar gael.

**Ar eich menter eich hun y byddwch yn cymryd rhan mewn Digwyddiad.**

### Tocynnau Rhodd

Gellir prynu tocynnau rhodd gan yr RSPB yn bersonol ar y warchodfa, ar-lein neu dros y ffôn. Rhaid talu'n llawn ar adeg eu prynu. Mae pob tocyn yn amodol ar argaeledd.

I archebu'ch Digwyddiad, ffoniwch y rhif ffôn ar y Tocyn.

**Rhaid i chi hysbysu'r person sy'n trefnu eich archeb eich bod yn defnyddio tocyn rhodd a bydd angen prawf o bryniant arnoch.**

**Rhaid i chi archebu a chymryd rhan yn eich digwyddiad cyn y dyddiad dod i ben sy'n ymddangos ar y tocyn. Ni all yr RSPB gynnig cyfnewid am arian parod.**

### **Addasiadau Rhesymol**

Rhowch wybod i ni os gwelwch yn dda am unrhyw faterion dietegol, symudedd, iechyd neu feddygol cymwys wrth archebu eich Digwyddiad. Fe wnawn ni'n gorau glas i fodloni'ch gofynion, ond nodwch, oherwydd natur Digwyddiadau penodol, efallai na fydd rhai addasiadau yn bosibl yn ymarferol. Rydym yn hapus i drafod unrhyw faterion neu bryderon yn hyn o beth ar unrhyw adeg cyn i chi archebu eich lle ar y digwyddiad.

Os na allwch fynychu'r Digwyddiad ac am i berson arall ddod yn eich lle, rhaid i chi ein hysbysu am hynny o leiaf 48 awr cyn i'r Digwyddiad gychwyn.

### **Cansladau**

Mae'n ddrwg iawn gennym na allwn, ar unrhyw adeg, ad-dalu tocynnau rhodd na'u cyfnewid am arian parod.

Bydd gennym yr hawl i ohirio neu ganslo unrhyw Ddigwyddiad ar unrhyw adeg lle mae angen i ni wneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: lle mae archebion annigonol yn golygu nad yw'r Digwyddiad yn ymarferol i'w gynnal; unrhyw weithred Ddwyfol; rhesymau yn ymwneud â'r tywydd; sefyllfaoedd lle mae ein gwarchodfa/gwarchodfeydd, neu unrhyw ran ohonynt, wedi'u difrodi, eu cau neu eu hystyried yn anniogel i'r cyhoedd; unrhyw gyfyngiadau a ddaw yn sgil cyfnodau clo lleol, rhanbarthol neu genedlaethol, Covid-19 neu gyfyngiadau sy'n gysylltiedig ag epidemig/pandemig fel hunan ynysu, newidiadau i amgylchiadau darparwr trydydd parti, cyfarwyddyd neu orchymyn gan Lywodraeth neu os ydym o'r farn y gallai eich archeb niweidio ein henw da.

Os wnawn ni ohirio neu ganslo unrhyw Ddigwyddiad bydd ein hatebolrwydd i chi yn gyfyngedig i'r hyn a nodir isod, ond fe wnawn ni'ch hysbysu o ddigwyddiad o'r fath cyn gynted ag y bo'n rhesymol ac ymarferol i wneud hynny a, lle bo hynny'n briodol, yn cynnig dewis o ddyddiadau eraill i chi ar gyfer y Digwyddiad, tocyn rhodd i'w defnyddio mewn unrhyw Ddigwyddiad arall neu ad-daliad llawn. Bydd gennych ddewis derbyn dyddiad gwahanol, y tocyn rhodd neu'r ad-daliad. Ni fyddwn yn atebol am unrhyw ad-daliad na chyfraniad tuag at gostau teithio neu lety a ysgwyddir gennych chi yn sgil gohirio neu ganslo Digwyddiad.

Heblaw mewn cysylltiad â thocynnau rhodd, os wnewch chi roi 7 diwrnod neu fwy o rybudd i ni eich bod chi am ganslo'ch presenoldeb mewn unrhyw Ddigwyddiad, byddwn yn cynnig naill ai tocyn rhodd i chi i'w ddefnyddio mewn unrhyw Ddigwyddiad arall neu'n ad-dalu cost lawn y Digwyddiad i chi.

Heblaw mewn cysylltiad â thocynnau rhodd, os byddwch yn canslo eich presenoldeb mewn unrhyw Ddigwyddiad gyda llai na 7 diwrnod o rybudd, byddwn yn cynnig tocyn anrheg i chi i'w ddefnyddio mewn unrhyw Ddigwyddiad arall neu'n ad-dalu 50% o gost y Digwyddiad i chi.

If you develop any symptoms of or test positive for Covid-19 or are subject to isolation or lockdown

Os wnewch chi ddatblygu unrhyw symptomau o, neu brofi'n bositif am Covid-19, neu'n gorfod hunan ynysu neu'n gaeth i gyfyngiadau cyfnod clo neu faterion eraill sy'n gysylltiedig â Covid-19, rhaid i chi beidio â mynychu unrhyw Ddigwyddiad y mae gennych Gadarnhad o'r Archeb ar ei gyfer. Bydd angen i chi gysylltu â'r warchodfa cyn gynted â phosibl i'n hysbysu nad ydych yn gallu bod yn bresennol a byddwch yn cael cynnig tocyn rhodd i'w ddefnyddio mewn unrhyw Ddigwyddiad arall ar adeg arall neu ad-daliad.

Os bydd unrhyw Ddigwyddiad yn cael ei gyflwyno gan drydydd parti ar ran yr RSPB, bydd polisi canslo'r cwmni sy'n cynnal y Digwyddiad hwnnw yn berthnasol yn hytrach na'r telerau a'r amodau hyn, oni nodir yn wahanol yn eich Cadarnhad o'r Archeb.

## **Ar Ddiwrnod y Digwyddiad**

Ar ddiwrnod eich Digwyddiad, dewch â'ch Cadarnhad o'r Archeb gyda chi a dilynwch unrhyw gyfarwyddiadau a anfonir gydag ef.

Mae cost mynediad i'r warchodfa natur wedi'i chynnwys a bydd parcio cyffredinol ar gael ar y warchodfa. Sylwch, os nad ydych yn aelod o'r RSPB, efallai y bydd gofyn i chi dalu am barcio yn ychwanegol at gost y Digwyddiad. Mae nifer gyfyngedig o leoedd parcio i'r anabl ar gael mewn mannau dynodedig.

Ar ddiwrnod y Digwyddiad cadwn yr hawl i atal pobl rhag cymryd rhan lle rydym o'r farn bod gennym seiliau iechyd a diogelwch rhesymol dros wneud hynny.

Pan fydd Digwyddiad yn cael ei hysbysebu fel un sydd ar gael i oedolion yn unig, ni chaniateir unrhyw blentyn/plant gymryd rhan ynddo ac os ydych chi'n mynychu unrhyw Ddigwyddiad o'r fath gyda phlentyn, fyddwch chi ddim yn cael myned na chyfrannu iddo.

Rydych yn cytuno i lynu, a sicrhau bod eich gwesteion yn glynu, wrth yr holl reolau, gweithdrefnau a pholisïau sefydliadol (yn enwedig o ran iechyd a diogelwch a dioegeledd) yr ydym yn eich hysbysu ohonynt sydd ynghlwm â'r Digwyddiad.

Heblaw cŵn tywys, cŵn clywed a chŵn cymorth eraill, ni chaniateir anifeiliaid anwes nac anifeiliaid eraill yn ein Digwyddiadau.

Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a pheidio â chymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd neu ddiben anghyfreithlon, nac unrhyw weithgaredd neu ddiben a allai ddwyn anfri ar yr RSPB.

Ni fyddwch, a byddwch yn sicrhau nad yw'ch gwesteion, yn ymddwyn mewn unrhyw ffordd sy'n arwain at annifyrrwch neu aflonyddwch i ni neu ein staff, ymwelwyr, preswylwyr neu fywyd gwyllt. Cadwn yr hawl i fynnu bod unrhyw un sy'n achosi annifyrrwch neu aflonyddwch yn gadael y safle yn syth. Ni ddarperir ad-daliad am gost y Digwyddiad o dan yr amgylchiadau hyn.

Ni chaniateir ysmegu, fflamau noeth, gamblo a/neu yfed alcohol cyn, ar ôl nac yn ystod Digwyddiad.

Tra ar ein safleoedd chewch chi ddim recordio, darlledu ar y teledu na darlledu unrhyw ddeunydd arall (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, cyfryngau cymdeithasol a/neu bodlediadau) heb ein caniatâd ymlaen llaw. Os rhoddir caniatâd i chi, cadwn yr hawl i gymryd rhan mewn unrhyw, a holl, drafodaethau, i fod yn rhan o unrhyw gytundeb ac i gymryd cyfran o unrhyw incwm a/neu gyhoeddusrwydd neu fudd arall sy'n deillio o weithgareddau o'r fath.

## **Ein Hatebolrwydd i Chi**

Nid oes unrhyw beth yn yr amodau a thelerau hyn, nac yn y Cytundeb, sy'n eithrio nac yn cyfyngu mewn unrhyw ffordd ar ein hatebolrwydd am farwolaeth neu anaf personol a achosir gan ein hesgeulustod ni neu'n gweithwyr neu asiantau, neu am dwyll neu gamliwio twyllodrus, neu am unrhyw fater arall y byddai'n anghyfreithlon neu'n groes i'r gyfraith i ni gyfyngu (neu geisio i eithrio neu gyfyngu) ein hatebolrwydd.

**Nid ydym yn derbyn unrhyw atebolrwydd am farwolaeth neu anaf i bersonau ac eithrio pan fydd hynny'n cael ei achosi gan ein hesgeulustod ni neu'n gweithwyr neu asiantau, neu am dwyll neu gamliwio twyllodrus, neu am unrhyw fater arall y byddai'n anghyfreithlon neu'n groes i'r gyfraith i ni gyfyngu (neu geisio i eithrio neu gyfyngu) ein hatebolrwydd.**

**Ni fyddwn yn atebol am unrhyw golledion, nac am unrhyw fethiant i gyflawni neu oedi wrth gyflawni, unrhyw un o'n rhwymedigaethau o dan y Cytundeb a achosir gan ddigwyddiad y tu hwnt i'n rheolaeth resymol, neu os byddwch chi a/neu unrhyw un o'ch gwesteion wedi methu â dilyn ein cyfarwyddiadau.**

Ni fydd gennym unrhyw gyfrifoldeb i chi o dan y Cytundeb neu'n gyffredinol am unrhyw golled go iawn neu honedig, gan gynnwys colli busnes, refeniw neu golli elw neu unrhyw golled ariannol arall.

Mae'n ofynnol i bobl sy'n mynychu'r safle gadw eu heiddo personol wrth law bob amser ac **nid ydym yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ddifrod i, neu golled o eiddo personol, offer neu gerbydau, ac eithrio pan fydd hwn yn cael ei achosi gan ein hesgeulustod ac, os felly, bydd ein hatebolrwydd yn gyfyngedig i faint ein hyswiriant.**

Noder mai ar eich menter eich hun y byddwch yn cymryd rhan mewn Digwyddiad o ran materion dietegol, symudedd, iechyd a/neu feddygol, gan gynnwys beichiogrwydd. Os oes gennych unrhyw bryderon yn hyn o beth, fe'ch cynghorir i beidio â chymryd rhan mewn Digwyddiad.

Cyfrifoldeb yr oedolyn yw unrhyw blentyn/plant sy'n dod gydag oedolyn i Ddigwyddiad a rhaid ei/eu goruchwyllo bob amser.

**Yn amodol i'r uchod, bydd cyfanswm ein hatebolrwydd i chi am unrhyw golled rydych chi'n ei dioddef o dan y Cytundeb wedi'i gyfyngu i faint ein hyswiriant ar gyfer y Digwyddiad dan sylw. Mae dogfennaeth sy'n manylu ar ein hyswiriant ar gael ar gais.**

**Rydych yn cydnabod ac yn cytuno nad ydych wedi dibynnu ar, ac na fydd gennych hawl i weithredu mewn perthynas ag unrhyw ddatganiad, cynrychiolaeth, gwarant neu addewid (p'un ai a wnaed yn esgeulus neu'n ddiniwed) ac eithrio fel y cyflwynir yn benodol o fewn yr amodau a thelerau hyn a'r holl amodau, gwarantau neu delerau eraill a awgrymir gan statud neu gyfraith gwlad yn cael eu heithrio i'r telerau hyn i'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith.**

### **Ein Polisi Preifatrwydd**

Mae RSPB yn cydnabod bod y wybodaeth bersonol a ddarperir gennych chi mewn cysylltiad ag archebu'ch lle ar Ddigwyddiad yn gyfystyr â data personol. Bydd gwybodaeth bersonol o'r fath yn cael ei phrosesu yn unol â gofynion y gyfraith diogelu data perthnasol a'n polisi preifatrwydd. I gael rhagor o wybodaeth am sut y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i chyflwyno i ni, darllenwch ein polisi preifatrwydd yma <https://www.rspb.org.uk/help/privacy-policy/>

### **Hawlfraint**

Mae'r holl ddeunyddiau a ddarperir ar gyfer Digwyddiadau'r RSPB gan gynnwys gwaith graffeg, côd , testun, ffotograffau, lluniau, sain, cerddoriaeth a dylunio yn eiddo i'r RSPB neu wedi'u trwyddedu i'r RSPB. Ni chaniateir copïo, atgynhyrchu, uwchlwytho, postio, arddangos, cysylltu â, na defnyddio unrhyw gynnwys, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, o ddeunyddiau'r RSPB heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr RSPB. Gwaherddir unrhyw ddefnydd o'r fath yn llwyr a bydd yn gyfystyr â thori hawlfraint a hawliau eiddo deallusol eraill yr RSPB neu, yn achos deunydd sydd wedi'i drwyddedu i'r RSPB, perchennog y deunyddiau hynny.

### **Ffotograffiaeth/Ffilmio**

Gall RSPB, o bryd i'w gilydd, dynnu lluniau neu ffilmio ei Ddigwyddiadau, neu ran ohonynt, ar gyfer deunyddiau cyhoeddusrwydd a marchnata yn y dyfodol ar gyfer hyrwyddo'r RSPB. Byddwn yn eich hysbysu o'n bwriad i wneud hyn a byddwn yn gofyn am eich caniatâd mewn unrhyw Ddigwyddiad fel sy'n berthnasol.

### **Aseiniad ac Is-gontractio**

Ni chewch drosglwyddo i berson neu sefydliad arall unrhyw un o'ch hawliau neu rwymedigaethau o dan y Cytundeb heb ein caniatâd ymlaen llaw, na fyddwn yn peidio ei roi am resymau yn afresymol. Rydych yn cytuno y gallwn drosglwyddo ein hawliau a'n rhwymedigaethau fel y nodir yn y Cytundeb hwn, ac y gallwn is-gontractio ein hawliau a'n rhwymedigaethau o dan y Cytundeb, ar yr amod nad yw hyn yn effeithio ar eich hawliau o dan yr amodau a thelerau hyn.

## **Ildiad Hawl**

Ni fydd methiant neu oedi gennym i weithredu neu orfodi unrhyw hawl neu rwymedi o dan yr amodau a thelerau hyn yn ildio'r fath hawl neu rwymedi nac yn golygu na allwn arfer neu orfodi'r hawl neu'r rhwymedi hwnnw ar unrhyw achlysur arall.

## **Toradwyedd**

Os bydd unrhyw awdurdodaeth gymwys yn penderfynu bod unrhyw un o'r telerau ac amodau hyn neu unrhyw ddarpariaethau yn y Cytundeb yn annilys, yn anghyfreithlon neu'n anorfodadwy i unrhyw raddau, bydd y term neu'r ddarpariaeth honno i'r graddau hynny yn cael eu gwahanu o'r telerau a'r darpariaethau sy'n weddill a fydd yn parhau mewn grym i'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith.

## **Cytundeb cyfan**

Bwriad yr amodau a thelerau hyn, ac unrhyw ddogfen y cyfeirir ati'n benodol ynddynt, yw cynrychioli'r cydsynio rhyngom ynghylch y Cytundeb. Os hoffech ofyn am unrhyw amrywiadau, gwnewch hynny yn ysgrifenedig a byddwn yn ymateb yn ysgrifenedig.

## **Dim Partneriaeth nac Asiantaeth Gyfreithiol**

Ni fwriedir i unrhyw beth yn yr amodau a thelerau hyn greu, neu i arwain at, greu partneriaeth gyfreithiol rhwng y partiön, nac awdurdodi'r naill barti i weithredu fel asiant i'r llall, ac ni fydd gan y naill barti na'r llall awdurdod i weithredu yn yr enw nac ar ran y llall neu fel arall i rwymo'r llall mewn unrhyw ffordd.

## **Hawliau Trydydd Parti**

Ni fydd gan berson nad yw'n barti i'r Cytundeb unrhyw hawliau dan neu mewn cysylltiad ag ef yn rhinwedd Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partiön) 1999.

## **Y Gyfraith ac Awdurdodaeth**

Rheolir y telerau hyn gan gyfraith Cymru a Lloegr ac yn destun awdurdodaeth allgynhwysol Llysoedd Cymru a Lloegr.